Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: 12 Mawrth 2015

Amser: 10:30y.b. - 12:30y.p.

Lleoliad: Sir Gaerfyrddin

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
MBr	Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
MB	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
MRB (cofnodion)	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
AD	Arolygydd

Eitem 1 Ymddiheuriadau:-

BS	Ymgynghorydd Annibynnol
HL	Ymgynghorydd Annibynnol
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol

Eitem 2 Cofnodion/Camau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol.

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014 yn gofnod gwir a chywir.

Eitem 2a Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu o'r cofnodion diwethaf.

Cam Gweithredu 1	Mae NH wedi cyflwyno erthygl ar gyfer cylchgrawn mewnol Dyfed-Powys, 'Informer'. Roedd yr erthygl yn rhoi trosolwg o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac yn dweud wrth bawb am gysylltu ag aelodau os oedd angen cyngor neu arweiniad arnynt.	Rhyddhawyd yr eitem

Cam Gweithredu 7	Mae'r pecyn gwybodaeth newydd yn fater cyfredol. Bydd pecynnau gwybodaeth newydd yn cael eu datb fydd Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg newydd yn cael ei benodi. Yn y cyfamser, Awgrymwyd y gellid rhoi'r hen becynnau i aelodau Newydd posibl. Mynegodd NH bryder fod dau aelod Newydd posibl wedi bod yn aros am wybodaeth ers amser hir.	NH Cyfredol

Cam Gweithredu 8	Mae HMH wedi egluro'r berthynas rhwng Swyddfa'r Comisiynydd a'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.	Rhyddhawyd yr eitem
Cam Gweithredu 9	Bellach, mae aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn gwybod eu bod yn medru dewis peidio â derbyn negeseuon e-bost gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu os ydyn nhw'n dymuno hynny.	Rhyddhawyd yr eitem
Cam Gweithredu 10	Mae cylchlythyrau'n cael eu hanfon ymlaen at NH.	Rhyddhawyd yr eitem
Cam Gweithredu 11	Mae NC wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod CHC Nesaf ac mae enw NC ar restr ohebiaeth y Gymdeithas yn awr.	Rhyddhawyd yr eitem

Eitem 3 Cyflwyniad Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

Mae Michiel yn esbonio cysylltiad Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys â gwirfoddolwyr SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys, a'i rôl ef yn arbennig.

Eitem 4 Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl

Rhoddodd DT ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â'r gwasanaeth Brysbennu Iechyd Meddwl newydd. Hefyd, esboniodd i'r grŵp beth yw 'blaengyfarwyddeb' a chafwyd trafodaeth ynghylch manteision y gyfarwyddeb hon. Awgrymodd DT i'r grŵp y dylent gefnogi ac annog unigolion i ysgrifennu eu 'blaengyfarwyddeb' eu hunain. Cytunodd y grŵp y dylai Carina Giannuzzi, cydlynydd Iechyd Meddwl ac Unigolion Coll, roi cyflwyniad mewn perthynas â'r brysbennu iechyd meddwl yn y cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu:- MBr i gysylltu â Carina Giannuzzi a threfnu ei bod hi'n rhoi'r cyflwyniad Iechyd Meddwl yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 5 Gwasanaeth negeseuon testun difrys ar gyfer pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, neu sydd â nam ar y lleferydd.

Rhoddodd PS ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â'r gwasanaeth negeseuon testun difrys. Mae'r gymuned fyddar yn falch iawn bod y gwasanaeth hwn ar gael yn awr. Bellach, mae gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth hwn ar y dudalen Cysylltwch â Ni ar wefan Heddlu Dyfed-Powys. Y cam nesaf yw marchnata'r gwasanaeth hwn a sicrhau fod pob cymuned fyddar yn ymwybodol ohono. Bydd MBr yn trefnu bod taflenni dwyieithog yn cael eu creu a'u dosbarthu ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys. Bydd y taflenni'n cael eu dosbarthu i ardaloedd derbynfa gorsafoedd heddlu, meddygfeydd, llyfrgelloedd, clybiau byddar ac ati. Y rhif ffôn symudol yw 07811311908 a gofynnodd PS i bawb yn y grŵp roi'r rhif i unrhyw un maen nhw'n adnabod a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Awgrymodd MBr y byddai'n fuddiol i PS gwrdd â'r Arolygydd yn y Ganolfan Gyfathrebu.

Cam Gweithredu:- Aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i roi'r rhif ffôn symudol difrys i bawb maen nhw'n adnabod sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, neu sydd â nam ar y lleferydd.

Cam Gweithredu:- MBr i drefnu bod PS yn cwrdd ag Arolygydd y Ganolfan Gyfathrebu.

Cam Gweithredu:- MBr i drefnu bod taflenni'n cael eu hargraffu a'u dosbarthu ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Eitem 6 Adborth Ynghylch Stopio a Chwilio

Rhoddodd NH a MB ddiweddariad ynghylch craffu ar y broses Stopio a Chwilio. Esboniodd AD fod arfer dda'n cael ei hystyried yn genedlaethol a'u bod hefyd yn ceisio cael safbwynt pobl ifainc ynglŷn â hyn.

Cam Gweithredu:- Bydd AD yn rhoi diweddariadau mewn perthynas â Stopio a Chwilio'r grŵp.

Eitem 7 Arfer dda o ran plismona cymunedol

Adroddodd NH rai straeon newyddion da am arfer dda gyda SCCH.

Eitem 8 Cyfradd y Filltir i Wirfoddolwyr

Cyfradd y filltir yw 45 ceiniog y filltir a chynghorir y grŵp i gyflwyno hawliadau costau'n rheolaidd.

Eitem 8 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 4 Mehefin 2015